

Atodiad I – Crynodeb o fesurau PEG 2020 ac ymagweddau arfaethedig at drosi

Mae 'copïo allan' yn golygu bod y ddeddfwriaeth weithredu'n mabwysiadu'r yn geiriad ag a geir yn y Gyfarwyddeb. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau trosi'n cyfeirio at Gymru a Lloegr yn unig, ond mae hyd a lled daearyddol yn amrywio felly dylid edrych ar ganllawiau yn y dyfodol i weld pa newidiadau sy'n effeithio arnoch chi.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (WFD)

Cyfarwyddeb a Rhif yr Erthygl	Pwnc	Ymagwedd arfaethedig i ateb y gofyniad	Rhagor o wybodaeth
WFD Erthygl 1 a 2	Cwmpas diwygiedig ac Eithriadau o'r cwmpas Ehangir y cwmpas i gynnwys ffocws ar bontio i economi gylchol. Ehangir y rhestr o eithriadau o'r cwmpas i gynnwys sylweddau sydd wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio fel deunyddiau porthant nad ydynt wedi'u gwneud o sgîl-gynhyrchion anifeiliaid nac yn cynnwys y sgîl-gynhyrchion hynny.	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3	Diffiniadau Mae'n ychwanegu diffiniadau newydd (e.e. cynllun cyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig) ac yn newid diffiniadau presennol. Dolen i restr lawn o ddiffiniadau yn nhestun cyfunol y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig¹	Gweler y cofnodion unigol isod.	Amherthnasol

¹ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:02008L0098-20180705&from=EN>

WFD Erthygl 3 (2a)	Diffiniad newydd o wastraff nad yw'n beryglus wedi'i fewnosod	Dim newid yn angenrheidiol.	Mae diffiniadau presennol mewn deddfwriaeth ddomestig yn gyson â diffiniad newydd yr UE
WFD Erthygl 3 (2b)	Diffiniad newydd o wastraff trefol wedi'i fewnosod	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (2c)	Diffiniad newydd o wastraff adeiladu a dymchwel wedi'i fewnosod	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (4)	Diffiniad o bio-wastraff wedi'i ddisodli	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (4a)	Diffiniad newydd o wastraff bwyd wedi'i fewnosod	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (9)	Y diffiniad o reoli gwastraff wedi'i ddisodli	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (12c)	Rhan o'r diffiniad o atal wedi'i ddisodli	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (15a)	Diffiniad newydd o adfer deunyddiau wedi'i fewnosod	Copïo allan.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (17a)	Diffiniad newydd o gefnlenwi wedi'i fewnosod	Wedi'i drosi gan fesurau anneddfwriaethol.	Amherthnasol
WFD Erthygl 3 (21)	Diffiniad newydd o gyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig wedi'i ychwanegu	Cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff wedi'i ddiweddarau yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.	Amherthnasol

<p>WFD</p> <p>Erthygl 4</p>	<p>Hierarchaeth Gwastraff</p> <p>Mae'n ychwanegu paragraff sy'n dweud y dylai Aelod-Wladwriaethau ddefnyddio offerynnau economaidd a mesurau eraill i ddarparu cymhellion i gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff. (gweler WFD Atodiad IVa)</p>	<p>Dim mesurau newydd yn yr arfaeth.</p>	<p>Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarpariaethau presennol a, lle y bo'n berthnasol, bydd mesurau'n cael eu cynnwys mewn Rhaglenni Atal Gwastraff (gweler y cofnod ar gyfer Erthyglau 9 a 29 isod).</p>
<p>WFD</p> <p>Erthygl 5</p>	<p>Sgîl-gynhyrchion</p> <p>Rhoi pwyslais ar gymryd mesurau priodol i sicrhau bod sylwedd neu wrthrych yn gallu cael ei ddsbarthu fel sgîl-gynnyrch ac nid fel deunydd gwastraff.</p>	<p>Dim newidiadau yn yr arfaeth.</p>	<p>Bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu cyflawni trwy ddarpariaethau presennol</p>
<p>WFD</p> <p>Erthygl 6</p>	<p>Diwedd Gwastraff</p> <p>Mae'r newidiadau wedi'u bwriadu i roi mwy o sicrwydd i brynwyr a gwerhwyr cynhyrchion sy'n deillio o wastraff o ran statws gwastraff neu fel arall cynhyrchion, gan hybu dull cyson.</p>	<p>Mesurau anneddfwriaethol yn yr arfaeth.</p>	<p>Mae Defra o'r farn bod ein mesurau anneddfwriaethol cyfredol yn ddigonol i gyfateb i eiriad newydd y meini prawf diwedd gwastraff yn Lloegr. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried geiriad newydd Erthygl 6 wrth iddynt gynnal eu hadolygiad parhaus o'r Protocolau Ansawdd a'r cynnig Diffiniad o Wastraff.</p>
<p>WFD</p> <p>Erthygl 9 a 29</p>	<p>Atal gwastraff</p> <p>Mae Erthygl 9 fel y'i diwygiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-Wladwriaethau gymryd mesurau i atal gwastraff. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol monitro ac asesu mesurau atal gwastraff trwy sefydlu dangosyddion meintiol ac</p>	<p>Gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol a datblygu mesurau anneddfwriaethol sy'n ystyried mesurau PEG, gan gynnwys trwy addasu Rhaglenni Atal Gwastraff.</p>	<p>Mae'r holl awdurdodau naill ai wedi datblygu neu wrthi'n datblygu a gweithredu rhaglenni atal gwastraff wedi'u haddasu. Mae'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff a chynllun rheoli gwastraff presennol a Strategaeth Economi Gylchol newydd arfaethedig</p>

	<p>ansoddol o faint y gwastraff a gynhyrchir, a monitro ac asesu mesurau ailddefnyddio ac atal gwastraff bwyd.</p> <p>Mae Erthygl 29 yn creu cyswllt rhwng Rhaglenni Atal Gwastraff a mesurau newydd y dylent eu nodi, gan gynnwys y rhestr o fesurau atal gwastraff dan Erthygl 9(1). Mae Erthygl 29 hefyd yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer rhaglenni atal gwastraff i, lle y bo'n berthnasol, ddisgrifio cyfraniad offerynnau a mesurau economaidd, a chyfraniad mesurau atal gwastraff presennol, ac yn mynnu rhaglenni atal gwastraff bwyd penodol.</p>		<p>Llywodraeth Cymru² yn nodi ystod o bolisiâu i yrru deunyddiau i fyny'r hierarchaeth gwastraff, a fydd yn cyflawni'r amcan hwn</p>
<p>WFD</p> <p>Erthygl 10(1-3)</p>	<p>Adfer</p> <p>Mae'n ail-lunio'r gofynion cyfredol ar gyfer casglu gwastraff ar wahân. Mae'n darparu mwy o fanylder am yr amodau neu'r amgylchiadau lle nad oes angen casglu gwastraff ar wahân i sicrhau bod gwastraff yn mynd trwy weithrediadau paratoi ar</p>	<p>Copïo allan (Cymru a Lloegr).</p>	<p>Yn Lloegr: Ymgynghorwyd ar farn am gasglu ar wahân ac ystyriaethau technegol, economaidd ac amgylcheddol yn 2019³</p> <p>Yn yr Alban, ceir y Siarter Ailgylchu i Aelwydydd</p> <p>Yng Nghymru, ceir y Glasbrint Casgliadau a chanllawiau statudol ar Gasglu Papur, Metel, Plastig a Gwydr Gwastraff Ar Wahân.</p> <p>Yng Ngogledd Iwerddon, bwriedir cyhoeddi dogfen drafod ar ailgylchu a chasglu gwastraff aelwydydd ar wahân yn haf 2020.</p>

² <https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol>

³ <https://www.gov.uk/government/consultations/waste-and-recycling-making-recycling-collections-consistent-in-england>

	gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu weithrediadau adfer eraill.		
WFD Erthygl 10 (4)	<p>Gwastraff a gasglwyd ar wahân i'w ailddefnyddio/ailgylchu i beidio â chael ei losgi</p> <p>Mae hwn yn ychwanegiad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-Wladwriaethau sicrhau nad yw deunyddiau gwastraff a gasglwyd ar wahân i gael eu paratoi ar gyfer eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu'n cael eu llosgi, ac eithrio gwastraff sy'n deillio o weithrediadau dilynol i drin y gwastraff a gasglwyd ar wahân y mae llosgi'n dwyn y canlyniad amgylcheddol gorau ar ei gyfer. Rhaid cymryd mesurau i gyflawni hyn.</p>	Mae'n cynnwys newidiadau deddfwriaethol i atal gwastraff a gasglwyd ar wahân i gael ei ailddefnyddio/ailgylchu rhag cael ei dderbyn mewn llosgyddion.	<p>Bydd y dull hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu ac yn helpu i wireddu uchelgeisiau sy'n amrywio o'r Cynllun 25 Mlynedd ar gyfer yr Amgylchedd i ymrwymadau o ran y newid yn yr hinsawdd.</p> <p>Yng Nghymru, ni ddisgwylir i'r gwaharddiad ar losgi gael unrhyw effeithiau newydd gan nad yw llosgyddion wedi'u hawdurdodi i dderbyn deunydd eildro a gasglwyd ar wahân oni bai y gellir dangos nad yw'n addas i'w ailgylchu.</p> <p>Manteision a chostau ariannol: Gweler yr RTA am fanylion llawn.</p>
WFD Erthygl 10 (5)	<p>Gwastraff peryglus</p> <p>Bydd yn ei gwneud yn ofynnol tynnu sylweddau, cymysgeddau neu gydrannau peryglus allan o wastraff peryglus, cyn neu yn ystod y broses adfer, os yw hynny'n angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer gwastraff peryglus yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ac i sicrhau bod iechyd dynol a'r amgylchedd yn cael eu diogelu.</p>	Mesurau anneddfwriaethol a gynigir: Rhoi ar waith trwy ddiweddarau'r canllawiau statudol perthnasol.	<p>Mae tynnu cydrannau peryglus allan yn cynnwys tynnu cemegolion allan, gan gyfrannu at yr ymrwymiad yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff i fynd i'r afael â rhwystrau i ailgylchu ac ailddefnyddio a achosir gan gemegolion.</p> <p>Hefyd, yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Lloegr, fe ymrwymodd Defra i ymgynghori ar ffyrdd pellach o annog cynhyrchwyr gwastraff peryglus i roi'r hierarchaeth gwastraff ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn maes o law hefyd. Gall yr ymgynghoriad hwn ymestyn i ystyried mesurau pellach a all fod yn angenrheidiol i roi gofynion Erthygl 10(5) ar waith.</p> <p>Manteision a chostau ariannol: Mae Erthygl 10(5) yn gyson ag arferion presennol, ond mae'n gosod rhwymedigaeth gryfach ar y</p>

			diwydiant i symleiddio'r modd y mae'n cynhyrchu ac yn trin gwastraff peryglus.
<p>WFD</p> <p>Erthygl 11(1)</p>	<p>Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio ac Ailgylchu</p> <p>Aelod-Wladwriaethau i gymryd mesurau i hybu gweithgareddau paratoi ar gyfer aildefnyddio, gan roi anogaeth a chefnogaeth i rwydweithiau aildefnyddio ac atgyweirio, a hybu'r defnydd o offerynnau economaidd.</p> <p>Dylai Aelod-Wladwriaethau gymryd mesurau i hybu ailgylchu o ansawdd da ac, i'r perwyl hwn, yn amodol ar Erthygl 10(2) a (3), dylent sefydlu trefniadau i gasglu gwastraff ar wahân.</p> <p>Aelod-Wladwriaethau i gymryd mesurau i hybu dymchwel detholus i'w gwneud yn bosibl tynnu sylweddau peryglus allan a'u trin yn ddiogel a hwyluso aildefnyddio ac ailgylchu o ansawdd da trwy dynnu deunyddiau allan yn ddetholus, a sicrhau y sefydlir systemau didoli ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel o leiaf ar gyfer pren, cyfrannau o fwynau, metel, gwydr, plastig a phlastr.</p>	<p>Mesurau deddfwriaethol a chanllawiau i fyd Diwydiant.</p>	<p>Mae darpariaethau ar gyfer casglu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy dynodedig ar wahân wedi'u cynnwys ym Mil yr Amgylchedd.</p> <p>Gwella'r fframwaith polisi cyfredol pan fydd y Trywydd Dim Gwastraff y Gellir Ei Osgoi wedi cael ei gwblhau gan dasglu'r Bwrdd Adeiladu Gwyrdd. Archwilio'r angen am ganllawiau gwell i fyd diwydiant a diwygiadau i ganllawiau cynllunio trwy'r Rhaglen Atal Gwastraff.</p>

<p>WFD Erthygl 11(2)</p>	<p>Targedau Ailgylchu Gwastraff Trefol Pennu targedau gorfodol ar gyfer 2025 (55%), 2030 (60%) a 2035 (65%).</p>	<p>Cymru: Trosi'r targedau mewn perthynas â gofynion yn y cynllun rheoli gwastraff. Lloegr: trosi'r targed terfynol ar gyfer 2035 mewn perthynas â gofynion yn y cynllun rheoli gwastraff.</p>	<p>Ni fydd cyflwyno'r targedau'n cyflwyno effeithiau ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes wrth gyflwyno targedau a pholisïau Llywodraeth Cymru.</p>
<p>WFD Erthygl 11a</p>	<p>Rheolau newydd ar gyfrifo data i gyrraedd y targedau Cyflwynir nifer o newidiadau newydd e.e. targedau ailgylchu ychwanegol sy'n berthnasol i ddiffiniad newydd o wastraff peryglus. Y man y dylid ei ddefnyddio fel y man cyfrifo ar gyfer ailgylchu yw'r man lle mae gwastraff trefol yn mynd i mewn i'r gweithrediad ailgylchu.</p>	<p>Cymhwysu'r mesurau newydd yn uniongyrchol.</p>	<p>Mabwysiadwyd Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1004 ar 7 Mehefin 2019. Fe sefydlodd hyn reolau pellach mewn perthynas â chyfrifo, gwirio ac adrodd ar ddata sy'n ymwneud â'r targedau yn Erthygl 11. Mae'r Penderfyniad hwn yn uniongyrchol berthnasol yn y DU yn ystod y Cyfnod Pontio.</p>
<p>WFD Erthygl 12</p>	<p>Gwaredu Aelod-Wladwriaethau i sicrhau, pan nad yw'n cael ei adfer, bod gwastraff yn mynd trwy weithrediadau gwaredu diogel.</p>	<p>Dim newid yn angenrheidiol.</p>	
<p>WFD Erthygl 14</p>	<p>Costau Mae'r geiriad diwygiedig yn ei gwneud yn eglur bod costau rheoli gwastraff yn cynnwys y seilwaith angenrheidiol a'i weithrediad.</p>	<p>Dim newid yn angenrheidiol gan bod mesurau eisoes ar waith.</p>	
<p>WFD Erthygl 18</p>	<p>Gwaharddiad ar gymysgu gwastraff peryglus Mae ystyriaeth i ddichonolrwydd economaidd wedi cael ei thynnu allan wrth benderfynu a oes rhaid</p>	<p>Copiö allan.</p>	<p>Mae tynnu cydrannau peryglus allan yn cynnwys tynnu cemegolion allan, sy'n cyfrannu at yr ymrwymiad yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Lloegr i fynd i'r afael â rhwystrau i ailgylchu ac ailddefnyddio a achosir gan gemegolion.</p>

	<p>gwahanu gwastraff peryglus a gymysgwyd yn anghyfreithlon.</p> <p>Wedi ychwanegu'r gofyniad, lle nad yw'n ofynnol gwahanu dan baragraff cyntaf Erthygl 18(3), bod y gwastraff peryglus cymysg yn cael ei drin mewn cyfleuster sydd wedi'i awdurdodi i'w dderbyn.</p>		<p>Mae cynllun rheoli gwastraff presennol a Strategaeth Economi Gylchol newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau nesaf tuag at economi fwy cylchol, gan ddileu gwastraff a newid i gymdeithas sy'n ailddefnyddio ac yn adfer cynhyrchion a deunyddiau lle bynnag y bo'n bosibl.</p>
<p>WFD Erthygl 21 (1)(a)</p>	<p>Olewau Gwastraff</p> <p>Gofyniad newydd i ystyried arferion da wrth gasglu olewau gwastraff ar wahân ochr yn ochr â'r gofyniad presennol i gasglu olewau gwastraff ar wahân.</p>	<p>Dull anneddfwriaethol: Cyhoeddi canllawiau newydd/ wedi'u diweddarau ac egluro arferion da.</p>	<p>Mae hyn yn cyd-fynd â nod Defra yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff i annog cynhyrchwyr a rheolwyr gwastraff i roi'r hierarchaeth gwastraff ar waith mewn perthynas â gwastraff peryglus yn Lloegr.</p> <p>Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chynllun rheoli gwastraff presennol Llywodraeth Cymru a'r Strategaeth Economi Gylchol newydd.</p>
<p>WFD Erthygl 21 (1)(b)</p>	<p>Adfywio olewau gwastraff</p> <p>Mae geiriad newydd yr erthygl hon yn cyfeirio'n benodol at adfywio. Y nod yw gwneud yn siŵr y rhoddir blaenoriaeth i adfywio neu ailgylchu o fath arall sy'n rhoi canlyniad amgylcheddol cyfatebol neu well ar y cyfan.</p>	<p>Dim newid yn yr arfaeth.</p>	<p>Mae'r trefniadau presennol yn cyflawni hyn</p>
<p>WFD Erthygl 21 (1)(c)</p>	<p>Cymysgu olewau gwastraff</p> <p>Cael gwared ar y cafeat bod y gwaharddiad ar gymysgu olewau gwastraff yn berthnasol dim ond os yw'n ddichonadwy'n dechnegol ac economaidd peidio â chymysgu olewau gwastraff.</p> <p>Caiff y testun "yn amharu ar eu trin" ("impedes their treatment") ei ddisodli â'r canlynol:</p>	<p>Copio allan.</p>	<p>Mae casglwyr olewau gwastraff eisoes yn gorfod cydymffurfio â'r gwaharddiad ar gymysgu a dylent eisoes fod yn ystyried arfer da.</p> <p>Mae hefyd yn cyd-fynd â'r ymdrechion yng nghynllun rheoli gwastraff presennol Llywodraeth Cymru a'r Strategaeth Economi Gylchol newydd i adfer cynhyrchion a deunyddiau lle bynnag y bo'n bosibl.</p>

	<p>“yn amharu ar eu trin neu weithrediad ailgylchu arall sy'n dwyn canlyniad amgylcheddol cyfatebol neu well ar y cyfan nag adfywio” (“impedes their regeneration or another recycling operation delivering an equivalent or a better overall environmental outcome than regeneration.”)</p>		
<p>WFD Erthygl 22 (2)</p>	<p>Bio wastraff Aelod-Wladwriaethau i gymryd mesurau i roi anogaeth ar gyfer</p> <ul style="list-style-type: none"> - lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd gydag ailgylchu bio-wastraff - compostio gartref - hybu defnydd o ddeunyddiau a gynhyrchwyd trwy fio-wastraff. 	<p>Mesurau anneddfwriaethol i gael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Gwastraff Cenedlaethol fel y bo'n briodol.</p>	<p>Mae'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ar gyfer Lloegr yn nodi mesurau y byddwn yn eu cymryd i gynyddu swm y gwastraff bwyd a gardd wedi'i ailgylchu sydd ar gael i'w ddefnyddio fel gwrtaith neu gompost a chamau gweithredu i sicrhau bod yr hyn a ailgylchir yn gynnrych o ansawdd da a bod deunyddiau a gynhyrchir o fio-wastraff yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol a bod ailgylchu bio-wastraff yn darparu lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd.</p>
<p>WFD Erthygl 28</p>	<p>Cynlluniau rheoli gwastraff Newidiadau i gynnwys cynlluniau rheoli gwastraff. Mae'n nodi mesurau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun.</p> <p>Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i asesu buddsoddiadau a moddion ariannol ar gyfer seilwaith gwastraff, dangosyddion a thargedau ar swm y gwastraff a gynhyrchir, ei drin a'i waredu gan adfer ynni, manylion mesurau i frwydro yn erbyn ac atal pob math o adael sbwriel a glanhau sbwriel o'r fath, newidiadau i'r gofynion presennol ar gyfer asesu</p>	<p>Copïo allan.</p>	<p>Mae gofynion statudol ar gyfer cynlluniau rheoli gwastraff, sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Erthygl 28.</p> <p>Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yn ystod ei hymgyngoriad ar y Strategaeth Economi Gylchol newydd. Bydd hyn hefyd yn goleuo unrhyw ddiweddiadau y mae angen eu gwneud i Gynllun Rheoli Gwastraff Cymru a'r rhyngwyneb â'r polisi cynllunio gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Atal Sbwriel i Gymru.</p>

	cynlluniau casglu gwastraff presennol a mesurau i gyrraedd y gyfradd ailgylchu gwastraff trefol o 65% a dim mwy na 10% o wastraff trefol i safleoedd tirlenwi erbyn 2035.		
WFD Erthygl 29	Gweler WFD Erthygl 9	Gweler WFD Erthygl 9.	Amherthnasol
WFD Erthygl 35	Cadw cofnodion ar wastraff peryglus Rhaid cadw cofnodion o swm y deunyddiau a chynhyrchion sy'n deillio o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff peryglus neu ei adfer mewn ffordd arall. Yn ail, rhaid trefnu bod yr holl gofnodion sy'n ofynnol yn ôl yr Erthygl hon ar gael i'r rheoleiddwyr perthnasol trwy'r gofrestrfa electronig sy'n ofynnol yn ôl Erthygl 35(4). Hynny yw, rhaid cyflwyno cofnodion yn weithredol yn hytrach nag mewn ymateb i gais.	Mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn yr arfaeth.	Mae'r gofyniad hwn yn gyson â chanlyniad ymgyngoriad yn 2018 ⁴ , a gyhoeddwyd ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru, ynghylch ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithredwyr safleoedd sydd wedi'u hesemptio gadw cofnodion ychwanegol. Roedd cefnogaeth gref i hyn ac i'w gwneud yn ofynnol i'r holl weithredwyr safleoedd sydd wedi'u hesemptio gadw cofnodion electronig.
WFD Erthygl 36	Gorfodi a Chosbau Dylai Aelod-Wladwriaethau gymryd y mesurau angenrheidiol i wahardd gadael gwastraff, ei domennu neu ei reoli heb reolaeth, gan gynnwys gadael sbwriel	Dim newid yn angenrheidiol.	Mae deddfwriaeth eisoes yn ei lle.

⁴ https://consult.defra.gov.uk/waste/crime-and-poor-performance-in-the-waste-sector/supporting_documents/Waste_Crime_Cons_English.pdf

WFD Atodiad II	Gweithrediadau Adfer Newidiadau i rai o fanylion y gweithrediadau adfer a restrir yn yr atodiad.	Copïo allan.	Amherthnasol
Atodiad IVa	Enghreifftiau o Offerynnau Economaidd a Mesurau Eraill i Ddarparu Cymhellion i Gymhwyso'r Hierarchaeth Gwastraff y cyfeirir ati yn Erthygl 4	Copïo allan.	Amherthnasol

Y Gyfarwyddeb Tirlenwi (LFD)

Cyfarwyddeb a Rhif yr Erthygl	Pwnc	Ymagwedd arfaethedig i ateb y gofyniad	Rhagor o wybodaeth
LFD Erthygl 1	Amcan ar y cyfan Mae'n newid testun yr amcan ar y cyfan i ganolbwyntio ar gyfrannu at bontio i economi gylchol.	Copïo allan.	Amherthnasol
LFD Erthygl 2(a)	Diffiniadau Bydd y diffiniadau o "gwastraff" ("waste"), "gwastraff peryglus" ("hazardous waste"), "gwastraff nad yw'n beryglus" ("non-hazardous waste"), "gwastraff trefol" ("municipal waste"), "cynhyrchydd gwastraff" ("waste producer"), "daliwr gwastraff" ("waste holder"), "rheoli gwastraff" ("waste management"), "casglu ar	Copïo allan.	Amherthnasol

	wahân” (“separate collection”), “adfer” (“recovery”), “paratoi ar gyfer aildddefnyddio” (“preparing for re-use”), “ailgylchu” (“recycling”) a “gwaredu” (“disposal”) a nodir yn Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC yn gymwys (Dolen i'r rhestr lawn o ddiffiniadau yn nhestun cyfunol y Gyfarwyddeb Fframwaith Tirlenwi ddiwygiedig⁵)		
LFD Erthygl 2(b), (c), (d) ac (n)	Diffiniadau blaenorol o “gwastraff trefol” (“municipal waste”), “gwastraff peryglus” (“hazardous waste”), “gwastraff nad yw’n beryglus” (“non-hazardous waste”) a “daliwr” (“holder”) wedi’u tynnu allan	Wedi’i dynnu allan.	Amherthnasol
LFD Erthygl 2(r)	Y diffiniad o’r rhanbarthau mwyaf allanol (“outermost regions”) wedi’i dynnu allan	Dim newid yn angenrheidiol.	Amherthnasol
LFD Erthygl 3	Cwmpas	Copïo allan.	Amherthnasol
LFD Erthygl 5(3)(f)	Gwastraff a thriniaeth nad ydynt yn dderbyniol mewn safleoedd tirlenwi Rhaid i ddeunyddiau gwastraff a gasglwyd ar wahân i’w paratoi ar gyfer eu haildddefnyddio neu eu hailgylchu beidio â chael eu derbyn mewn safle tirlenwi, ac eithrio gwastraff sy’n deillio o	Mae’n cynnwys newidiadau deddfwriaethol i atal gwastraff a gasglwyd ar wahân ar gyfer ei aildddefnyddio/ei ailgylchu rhag cael ei dderbyn mewn safleoedd tirlenwi.	Ar gyfer manteision a chostau ariannol gweler yr RTA. Bydd y newid hwn yn gweithio ar y cyd â mesur tebyg sydd wedi’i dargedu at weithfeydd llosgi. Mae’n tanategu’r ymrwymadau yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Lloegr i yrru rhagor o wastraff i fyny’r hierarchaeth gan sicrhau bod mwy’n cael ei aildddefnyddio/ei ailgylchu yn hytrach na’i waredu mewn safle tirlenwi.

⁵ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:01999L0031-20180704>

	<p>weithrediadau dilynol i drin y gwastraff a gasglwyd ar wahân y mae tirlenwi'n dwyn y canlyniad amgylcheddol gorau ar ei gyfer. Rhaid cymryd mesurau i gyflawni hyn.</p>		<p>Yng Nghymru, nid oes disgwyl i'r gwaharddiad ar dirlenwi gael unrhyw effeithiau newydd gan nad yw gweithredwyr tirlenwi wedi'u hawdurdodi i dderbyn deunydd eildro a gasglwyd ar wahân oni bai y gellir dangos ei fod yn anaddas i'w ailgylchu.</p> <p>Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu targed na fydd dim mwy na 5% o'r gwastraff ar y cyfan yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi erbyn 2025. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig targed i haneru gwastraff bwyd erbyn 2025. Hefyd, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i gyflwyno gwaharddiadau ar dirlenwi ar gyfer deunyddiau penodedig y gellir eu hailgylchu a'u hadfer.</p>
<p>LFD Erthygl 5(5)</p>	<p>Targed Tirlenwi Cyfyngu ar y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi fel nad yw'n fwy na 10% erbyn 2035.</p>	<p>Cymru a Lloegr: trosi'r targed mewn perthynas â'r gofynion mewn cynlluniau rheoli gwastraff.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>LFD Erthygl 6</p>	<p>Gwastraff i gael ei dderbyn mewn gwahanol ddsbarthiadau tirlenwi Mae ail baragraff wedi cael ei ychwanegu at Erthygl 6(a) i sicrhau bod unrhyw fesurau a gymerir yn unol â pharagraff cyntaf Erthygl 6(a) <i>"yn peidio â pheryglu'r gallu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, yn anad dim ar yr hierarchaeth gwastraff ac ar gynyddu'r gweithgarwch paratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu a nodir yn Erthygl 11 yn y Gyfarwyddeb honno"</i> (<i>"do not compromise the achievement of</i></p>	<p>Mae'r mesurau presennol a gymerir eisoes yn cydymffurfio ag Erthygl 6(a), paragraff 2.</p>	<p>Nid yw'r mesurau a'r darpariaethau sydd eisoes yn eu lle mewn perthynas â pharagraff cyntaf Erthygl 6(a) yn peryglu'r gallu i gyflawni'r amcanion yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Gan hynny, nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r mesurau na'r darpariaethau hynny.</p>

	<p><i>the objectives of the WFD, notably on the waste hierarchy and on the increase of preparing for re-use and recycling as set out in Article 11 of that Directive”). Mae hyn wedi'i fwriadu i wneud yn siŵr bod yr hierarchaeth gwastraff a'r targedau gwastraff trefol yn cael eu hystyried yn llwyr wrth ganiatáu i wastraff gael ei dderbyn mewn safle tirlenwi ac nad yw geiriad diwygiedig y Gyfarwyddeb Tirlenwi yn gwrthdaro â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig.</i></p>		
<p>LFD Erthygl 15a</p>	<p>Offerynnau i hybu newid i economi fwy cylchol</p> <p>Mae'r erthygl newydd hon yn ychwanegu'r gofyniad i Aelod-Wladwriaethau ddefnyddio offerynnau economaidd a mesurau eraill i ddarparu cymhellion ar gyfer cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff.</p>	<p>Mae llawer o offerynnau eisoes yn eu lle.</p>	<p>Gweler y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ar gyfer Lloegr a chynllun rheoli gwastraff presennol a Strategaeth Economi Gylchol newydd Llywodraeth Cymru⁶</p>

⁶ <https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol>

Y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio (PPWD)

Cyfarwyddeb a Rhif yr Erthygl	Pwnc	Ymagwedd arfaethedig i ateb y gofyniad	Rhagor o wybodaeth
PPWD Erthygl 1	Amcan ar y Cyfan Mae'n newid testun yr amcan ar y cyfan i ganolbwyntio ar gyfrannu at bontio i economi gylchol.	Mesurau deddfwriaethol.	Bydd y mesurau yr ydym wedi ymgynghori arnynt yn flaenrol yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff a Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru i estyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddeunydd pacio. Canlyniad yr ymgynghoriad: Packaging waste: changing the UK producer responsibility system for packaging waste⁷
PPWD Erthygl 3 (2)	Diffiniadau Mae'n diweddarau'r diffiniadau yn y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio Gweler manylion llawn y diffiniadau diwygiedig yn nhestun cyfunol y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio	Cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Gwastraff Deunydd Pacio wedi'u diweddarau lle y bo'n berthnasol yn Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007.	
PPWD Erthygl 3 (2a)	Diffiniad o "deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio" ("reusable Packaging") wedi'i fewnosod	Heb ei drosi gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau.	Amherthnasol
Erthygl 3 (2b)	Diffiniad o "deunydd pacio cyfansawdd" ("composite packaging") wedi'i fewnosod	Heb ei drosi gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau.	Amherthnasol
Erthygl 3 (2c)	Bydd diffiniadau o "gwastraff" ("waste"), "rheoli gwastraff" ("waste management"), "casglu" ("collection"), "casglu ar wahân"	Cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio sy'n cyfeirio at y	Amherthnasol

⁷ www.gov.uk/government/consultations/packaging-waste-changing-the-uk-producer-responsibility-system-for-packaging-waste

	<p>(“separate collection”), “atal” (“prevention”), “ailddefnyddo” (“reuse”), “trin/triniaeth” (“treatment”), “adfer” (“recovery”), “ailgylchu” (“recycling”), “gwaredu” (“disposal”), a “cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchydd” (“extended producer responsibility scheme”) a nodir yn Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC yn gymwys</p>	<p>Gyfarwyddeb Gwastraff wedi’u diweddarau lle defnyddir y termau hynny yn y Rheoliadau.</p>	
<p>PPWD Erthygl 4</p>	<p>Atal Mae’n gosod cyfrifoldebau pellach ar Aelod-Wladwriaethau i roi mesurau ataliol ar waith er mwyn atal cynhyrchu deunydd pacio a lleihau i’r eithaf effaith amgylcheddol deunydd pacio. E.e. rhaglenni cenedlaethol, cymhellion trwy gynlluniau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchydd.</p>	<p>Gall y rhwymedigaethau hyn gael eu cyflawni trwy ddarpariaethau presennol.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>PPWD Erthygl 5</p>	<p>Ailddefnyddio Mae’n gosod dyletswydd estynedig ar Aelod-Wladwriaethau i gymryd camau i roi anogaeth ar gyfer cynnydd yn y gyfran o ddeunydd pacio ailddefnyddiadwy a osodir ar y farchnad ac o systemau i ailddefnyddio deunydd pacio. E.e. defnyddio cynlluniau dychwelyd blaendal, pennu targedau, defnyddio cymhellion economaidd.</p>	<p>Gall y gofynion hyn gael eu cyflawni trwy ddarpariaethau presennol.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>PPWD Erthygl 6a</p>	<p>Rheolau ar gyfrifo data i gyrraedd y targedau yn Erthygl 6</p>	<p>Gall y rhwymedigaethau hyn gael eu cyflawni trwy ddarpariaethau presennol.</p>	<p>Amherthnasol</p>

	<p>Bydd swm y gwastraff deunydd pacio a ailgylchir yn cael ei gyfrifo yn awr fel <i>“pwysau’r deunydd pacio sydd wedi dod yn wastraff ac sydd, ar ôl mynd trwy’r holl weithrediadau gwirio, didoli a gweithrediadau rhagarweiniol eraill i waredu deunyddiau gwastraff nad ydynt yn cael eu targedu gan y gweithgarwch ailbroseu dilynol ac i sicrhau bod ailgylchu o ansawdd da’n mynd i mewn i’r gweithrediad ailgylchu lle mae deunyddiau gwastraff yn cael eu hailbroseu’n wirioneddol yn gynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau”</i> (<i>“the weight of packaging that has become waste which, having undergone all necessary checking, sorting and other preliminary operations to remove waste materials that are not targeted by the subsequent reprocessing and to ensure high-quality recycling enters the recycling operation whereby waste materials are actually reprocessed into products, materials or substances”</i>). Hwn i bob pwrpas yw’r man lle mae Nodyn Adfer Gwastraff Deunydd Pacio (PRN) yn cael ei ddyroddi ar hyn o bryd a chan hynny ni ddylai’r cynigion gael effaith arwyddocaol.</p>		
<p>PPWD Erthygl 7</p>	<p>Systemau dychwelyd, casglu ac adfer</p>	<p>Systemau eisoes yn eu lle ac mae mesurau</p>	<p>Amherthnasol</p>

	<p>Aelod-Wladwriaethau i gymryd mesurau angenrheidiol i sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i ddarparu ar gyfer dychwelyd a/neu gasglu deunydd pacio wedi'i ddefnyddio a/neu wastraff deunydd pacio.</p> <p>Aelod-Wladwriaethau i gymryd mesurau angenrheidiol i sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i ddarparu ar gyfer aildefnyddio neu adfer gan gynnwys ailgylchu'r deunydd pacio a/neu wastraff deunydd pacio a gasglwyd.</p>	ychwanegol wedi cael eu cynnig.	
<p>PPWD Erthygl 12</p>	<p>Systemau gwybodaeth ac adrodd</p> <p>Dehongli hyn fel ei fod yn golygu bod angen darparu data ynghylch:</p> <p>Cyfanswm y deunydd pacio a osodir ar farchnad y DU, swm y deunydd pacio yn ôl math o ddeunydd a osodir ar farchnad y DU, a'r tueddiadau o ran deunydd pacio a osodir ar farchnad y DU (yn ôl math o ddeunydd ac ar y cyfan).</p>	Gellir eu cyflawni trwy ddarpariaethau presennol.	Amherthnasol
<p>PPWD Atodiad II</p>	<p>Cyfansoddiad a gwneuthuriad deunydd pacio</p> <p>Newidiadau o ran cyfansoddiad a gwneuthuriad deunydd pacio.</p>	Copïo allan yn y Rheoliadau Gofynion Hanfodol	Amherthnasol

Cerbydau Diwedd Oes/Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff/Batris (BAWBA)

Cyfarwydddeb a Rhif yr Erthygl	Pwnc	Ymagwedd arfaethedig i ateb y gofyniad	Rhagor o wybodaeth
ELV Erthygl 6	Mesurau i sicrhau bod yr holl Gerbydau Diwedd Oes yn cael eu storio/trin yn unol â'r Hierarchaeth Gwastraff	Yn cael ei drosi gan y ddeddfwriaeth bresennol.	Amherthnasol
BAWBA Erthygl 22a	Cymhellion i gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff Mae'n ychwanegu paragraff sy'n dweud y dylai Aelod-Wladwriaethau ddefnyddio offerynnau economaidd a mesurau eraill i ddarparu cymhellion ar gyfer cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff. (gweler WFD Erth 4 ac Atodiad IVa)	Dim mesurau newydd yn yr arfaeth.	Gweler WFD Erth 4 ac Atodiad IVa.
WEEE Erthygl 16a	Cymhellion i gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff Mae'n ychwanegu paragraff sy'n dweud y dylai Aelod-Wladwriaethau ddefnyddio offerynnau economaidd a mesurau eraill i ddarparu cymhellion ar gyfer cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff. (gweler WFD Erth 4 ac Atodiad IVa)	Dim mesurau newydd yn yr arfaeth.	Gweler WFD Erth 4 ac Atodiad IVa.